


ACWSTEG ACOUSTICS



Mae'r gallu i weld yn gyfyngedig o dan y dŵr felly mae dolffiniaid yn synhwyro eu byd gan ddefnyddio sain. Maent yn defnyddio ecoleoliad ac yn creu chwibanau i gyfathrebu.



Vision is limited underwater so dolphins sense their world using sound. They use echolocation and produce whistles to communicate.



Rydyn ni'n defnyddio meicroffonau tanddwr (hydroffonau) i recordio a gwrando ar y synau hyn

ECOLEOLIAD ECHOLOCATION


Mae ecoleoliad yn cael ei ddefnyddio i ddod o hyd i fwyd ac archwilio eu hamgylchedd.

Echolocation is used to find food and explore their surroundings.

We use underwater microphones (hydrophones) to record and listen to these sounds.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Wrth chwilio am fwyd mae dolffiniaid trwyn potel weithiau'n cynhyrchu cri sy'n swnio fel asyn yn brefu! Fel rhan o'n hymchwil fe wnaethon ni gasglu'r recordiadau cyntaf o'r brefu yma ym Mae Ceredigion!



DID YOU KNOW?

Whilst foraging bottlenose dolphins sometimes produce calls that sound like donkey brays! As part of our research we collected the first recordings of bray calls in Cardigan Bay!




CHWIBAN NODDIG

Mae gan ddolffiniaid chwiban nodedig sy'n unigryw iddyn nhw, yn debyg iawn i enw. Gallwn ddefnyddio'r rhain i olrhain symudiadau unigol o amgylch Bae Ceredigion.

SIGNATURE WHISTLE

Dolphins have a signature whistle that is unique to them, a bit like a name. We can use these to track individual movements around Cardigan Bay.



Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru a'i gweinyddu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru.

The Nature Networks Fund is funded by the Welsh Government and administered by The National Lottery Heritage Fund in Wales.

